# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Adroddiad ar y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (diwidiant dŵr)

## Cyflwyniad

Ar 19 Gorffennaf 2012,  rhoddodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ystyried i memorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â darpariaethau ym Mil Menter a Diwygio Rheoleiddio y DU sydd â'r bwriad o ddiwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Cytunodd i rhoi gwybod i'r Cynulliad **nad oes ganddo wrthwynebiad i ddefnyddio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, fel y'i cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.**

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn gosod y cefndir i'r penderfyniad hwn.

Mae linc i'r holl ddogfennau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hon ar gael yn yr adran olaf : 'Ffynonellau a gwybodaeth ychwanegol'.

## Cyd-destun

Mae Senedd y DU ar hyn o bryd yn ystyried Bil Llywodraeth y DU, sef Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio ('y Bil').

Bwriad adrannau o'r Bil hwn yw deddfu mewn meysydd cymhwysedd sydd wedi eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n ofynnol, yn ôl confensiwn, bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') yn ystyried cydsynio â hyn. Mae'r Cynulliad yn gwneud hyn drwy ystyried cynnig cydsyniad deddfwriaethol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol wedi ei ddrafftio fel a ganlyn:

> "Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio, fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Mai 2012 sy'n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru."

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ('y memorandwm') ar 12 Mehefin 2012 sy'n esbonio hyn mewn rhagor o fanylder.

Yn bennaf, mae'r memorandwm yn nodi'r darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad:

- Atodlen 14, paragraffau 8-10; ac
- Atodlen 17, Rhan 2, paragraff 4.

Bwriad yr elfennau hyn o'r Bil yw diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (adrannau 2.19 a 22A).

## Bwriad y polisi

Mae paragraff 5 o'r memorandwm yn nodi bwriad y polisi yn fwy manwl. Mae crynodeb byr yn y blwch isod.

| Crynodeb o fwriad y polisi |
| --- |

- *Atodlen 14, paragraffau 8-10 – newid y pwyslais ar gyfer awdurdodau gorfodi*

  Mae'r darpariaethau hyn yn diwygio adrannau 19 a 22A(13) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 i newid y pwyslais i awdurdodau gorfodi er mwyn iddynt ystyried gweithredu o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 yn hytrach na defnyddio pwerau gorfodi o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

- *Atodlen 17, Rhan 2, paragraff 4 – diddymu'r gwaharddiad ar fasnachu mewn ardal*

  Bydd y ddarpariaeth hon yn diddymu adran 2(3)(d)(iii) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Ar hyn o bryd, mae adran 2(3)(d)(iii) yn rhwystro cwmnïau cysylltiol cwmniau dŵr presennol Cymru a Lloegr rhag masnachu yn ardal y rhiant-gwmni. Gelwir hyn yn waharddiad ar fasnachu mewn ardal.

**Barn y rhanddeiliaid**

Er mwyn helpu'r Pwyllgor i ystyried y memorandwm, mae Clerc y Pwyllgor wedi holi barn y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, y Swyddfa Gwasanaethau Dŵr, Dŵr Cymru, Cwmni Severn Trent a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy.

Ymatebodd Dŵr Cymru. Mae'r ymateb hwn wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.

Na fynegwyd pryderon gan y rhanddeiliaid hyn.

**Y broses ar gyfer ystyried y cynnig**

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi trosglwyddo'r memorandwm hwn i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'w ystyried. Wrth wneud hynny, mae dyletswydd ar y Pwyllgor Busnes i bennu amserlen ar gyfer ystyried y memorandwm.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd gyflwyno adroddiad ar y memorandwm erbyn 27 Gorffennaf 2012.

Bydd y Cynulliad yn ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Medi 2012.

**Casgliad**

Nid yw'r dystiolaeth a gasglwyd yn gwrthddweud datganiad Llywodraeth Cymru yn y memorandwm ei bod:

> '[...] yn briodol delio â'r darpariaethau yn y Bil DU hwn gan mai'r Bil hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i gymhwyso'r darpariaethau hyn i Gymru ac i sicrhau cysondeb wrth reoleiddio'r diwydiant dŵr ar draws Cymru a Lloegr yn unol â dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant dŵr yn y dyfodol.'

Cytunodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i rhoi gwybod i'r Cynulliad nad oes ganddo wrthwynebiad i ddefnyddio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, fel y'i cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Ffynonellau a gwybodaeth ychwanegol**

- Mae'r **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol** ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=235055&ds=6/2012

- Mae'r **Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio** ar gael ar wefan Senedd y DU: http://services.parliament.uk/bills/2012-13/enterpriseandregulatoryreform.html

- Mae **Deddf y Diwydiant Dŵr 1991** ar gael ar wefan legislation.gov.uk: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/56/contents

- Hysbysiad **hwylus y Gwasanaeth Ymchwil** *Cyfres y Cyfansoddiad: 6 Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol* ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/qg07-0006.pdf

- **Mae modd gweld y Rheolau Sefydlog** yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-assembly-guidance.htm (Mae Rheol Sefydlog 29 yn pennu'r broses ar gyfer ystyried memorandwm cydsyniad deddfwriaethol.)

- Mae modd gweld **cofnod o ystyriaeth y Cynulliad o'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol** yn http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=4027&Opt=0

# Response from Dŵr Cymru

Lord Dafydd Elis-Thomas AC/AM,
Chair,
Environment and Sustainability Committee,
National Assembly for Wales,
Cardiff Bay,
CARDIFF.
CF99 1NA

Date: 12 July 2012

Dear Lord Elis-Thomas,

**RE: Legislative Consent Motion - Enterprise and Regulatory Reform Bill.**

Thank you for your memorandum of June 2012 inviting Dŵr Cymru to express its views on the Welsh Government's legislative consent motion relating to Schedules 14 and 17 of the Enterprise and Regulatory Reform Bill.

**Schedule 14, paragraphs 8-10 –** These make amendments to sections 19 and 22A(13) of the Water Industry Act 1991 to change the emphasis for enforcement authorities to consider proceeding under the Competition Act 1998 rather than using enforcement powers under the Water Industry Act 1991.

Dwr Cymru broadly agrees with the Minister's own summary of the impact that this amendment will have; effectively making what is currently an implied duty on enforcement authorities an express one.

Ofwat has already demonstrated that it accepts these principles and published its "Prioritisation principles: application to the Competition Act 1998" in September 2010. The document which has many similarities with OFT guidance acknowledges the interaction with its other sectoral powers i.e. the Water Industry Act 1991 and outlines how decisions on whether to open or continue investigations under the CA 98 will be approached.

The decision therefore to formally acknowledge these responsibilities would appear to be a logical step and the consent motion the appropriate and proportionate legislative vehicle to do so.

**Schedule 17, Part 2, paragraph 4 –** This provision will repeal section 2(3)(d)(iii) of the Water Industry Act 1991. Section 2(3)(d)(iii) currently prevents associate companies of English and Welsh incumbent water companies from trading in the area of the parent company. This is known as the in area trading ban.

Dwr Cymru supports the removal of this clause from legislation. Customers with premises in more than one water undertaker's area have expressed an interest in having its water services provided by a single company. The current legislation prevents an incumbent undertaker from being able to offer them such a service.

We do not consider that the removal of the legislative clause will have an adverse impact on the competitiveness of the water supply license regime. It should provide greater customer choice and increase the number of customers switching supplier.

Whilst Dwr Cymru recognises the importance of customer choice, it does not itself have plans to utilise the legislation to serve customers outside of its supply region.

We hope that our response has been of some assistance, if however we can be of further help please don't hesitate to contact us.

Sean Larkin
Competition Manager
Dwr Cymru